

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cronfa Bensiwn Gwynedd

Blwyddyn archwilio: 2021-22

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2022

Cyfeirnod y ddogfen: 3245A2022

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon.

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad	4
Effaith Covid-19 ar Archwiliad Eleni	4
Barn archwilio arfaethedig	5
Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad	6
Atodiadau	
Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol	7
Atodiad 2 – Adroddiad Archwilio Arfaethedig	10

Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad

- 1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch adroddiad blynyddol a'ch cyfrifon ar gyfer 2021-22 yn yr adroddiad hwn..
- 2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Cyfarwyddwr y Gronfa Bensiwn a'i dîm.
- 3 Nid yw archwilwyr byth yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai beri fel arall i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain.
- 4 Pennwyd lefel perthnasedd o £27.794 miliwn ar gyfer archwiliad eleni.
- 5 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni'n sylweddol.
- 6 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; rydym yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Nid oes unrhyw berthnasoedd rhyngom ni a chithau a allai danseilio ein gwrthrychedd a'n hannibyniaeth yn ein tyb ni..

Effaith Covid-19 ar Archwiliad Eleni

- 7 Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith barhaus ar y modd y cynhaliwyd ein harchwiliad. Rydym yn crynhoi'r prif effeithiau yn **Arddangosyn 1**. Ac eithrio lle'r ydym yn gwneud argymhellion penodol, darperir y manylion yn **Arddangosyn 1** er gwybodaeth yn unig i'ch helpu i ddeall effaith pandemig COVID-19 ar broses archwilio eleni.

Arddangosyn 1 – effaith COVID-19 ar archwiliad eleni

Amserlen	<ul style="list-style-type: none">• Cawsom y cyfrifon drafft ar 27 Mehefin 2022 fel a gynlluniwyd. Mae hyn yn cydymffurfio â therfynau amser rheoleiddio.• Rydym yn disgwyl i'ch adroddiad archwilio gael ei lofnodi yn Tachwedd.
Llofnodion electronig	O ystyried gweithio o bell parhaus, byddwn yn defnyddio llofnodion electronig ar gyfer cymeradwyo ac ardystio cyfrifon eleni.
Tystiolaeth archwilio	Cynhaliwyd archwiliad y datganiadau ariannol o bell eto eleni gan: <ul style="list-style-type: none">• gynnal cyfarfodydd Microsoft Teams gyda swyddogion trwy gydol yr archwiliad i drafod cynnydd a materion a oedd yn dod i'r amlwg; a• defnyddio ein mynediad o bell i alluogi'r tîm archwilio i gael mynediad at gofnodion a systemau ariannol y Gronfa Bensiwn.

Barn archwilio arfaethedig

- 8 Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.
- 9 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.
- 10 Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys ambell gadarnhad y mae'n ofynnol inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.
- 11 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

Materion Arwyddocaol sy'n codi o'r Archwiliad

Camddatganiadau nas cywirwyd

- 12 Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi'u canfod yn y cyfrifon, sy'n dal heb eu cywiro.

Camddatganiadau a gywirwyd

- 13 Roedd rhai mân hebgoriadau a gwallau cyflwyniadol yn y datganiadau ariannol drafft sydd bellach wedi'u cywiro gan y rheolwyr.

Materion Arwyddocaol eraill sy'n codi o'r Archwiliad

- 14 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy'n codi. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol yn codi eleni.

Argymhellion

- 15 Rydym yn bwriadu gwneud nifer fechan o argymhellion mewn adroddiad ar wahân i'r rheolwyr. Nid yw'r argymhellion yn cael unrhyw effaith ar ein barn ynglŷn â'r datganiadau ariannol.

Atodiad 1

Llythyr Sylwadau Terfynol

Pennawd llythyr

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd

CF11 9LJ

Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2021-22

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

Sylwadau'r rheolwyr

Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol â'r Côt Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy; ac
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
 - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
 - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a

- mynediad digyfngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar y Gronfa Bensiwn Gwynedd ac sy'n cynnwys:
 - rheolwyr;
 - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
 - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol; ac
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymglyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

Sylwadau gan y Cyd-Bwllgor

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Bwyllgor Pensiynau Cronfa Bensiwn Gwynedd ar 21 Tachwedd 2022.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Dewi Aeron Morgan

Pennaeth Cyllid

21 Tachwedd 2022

Llofnodwyd gan:

Y Cynghorydd Stephen Churchman

Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau

21 Tachwedd 2022

Adroddiad Archwilio Arfaethedig

Adroddiad archwilydd annibynnol Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gyfer aelodau Cyngor Gwynedd sy'n gweithredu fel awdurdod gweinyddu ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd

Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn Gwynedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 31 Mawrth 2022 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae datganiadau ariannol y Gronfa Bensiwn Gwynedd yn cynnwys cyfrif y gronfa, datganiad o'r asedau net a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisiâu cyfrifyddu perthnasol. Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o drafodiadau ariannol y gronfa bensiwn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022, ac o swm a threfniadaeth ei hasedau a'i rhwymedigaethau ar y dyddiad hwnnw;
- wedi eu paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a safonau cyfrifyddu rhyngwladol fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan God Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022.

Sail y farn

Cynhaliâs fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Cyrff y Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Mae disgrifiad pellach o'm cyfrifoldebau o dan y safonau hynny i'w weld yn yr adran o fy adroddiad ar gyfrifoldebau'r archwilydd wrth archwilio datganiadau ariannol. Rwyf yn annibynnol o'r Gronfa Bensiwn Gwynedd yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio a gefais yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod y defnydd o sail gyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnais, nid wyf wedi nodi unrhyw ansicrwydd perthnasol sy'n ymwneud â digwyddiadau nac amodau a allai, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth perthnasol ar allu'r Gronfa Bensiwn Gwynedd i barhau i fabwysiadu sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau a chyfrifoldebau y swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â busnes gweithredol yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol heblaw'r datganiadau ariannol a'm hadroddiad archwilydd arnynt. Mae'r Swyddog Ariannol Cyfrifol yn gyfrifol am yr wybodaeth arall a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac, oni nodir fel arall yn glir yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o sicrwydd ynghylch hynny. Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson yn berthnasol â'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu ei bod yn ymddangos fel arall ei bod wedi ei chamddatgan yn berthnasol. Os byddaf yn nodi anghysondebau perthnasol o'r fath neu gamddatganiadau perthnasol amlwg, mae'n ofynnol imi benderfynu a yw hyn yn arwain at gamddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Os byddaf, ar sail y gwaith a gyflawnais, yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi ei chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol imi roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennyf unrhyw beth i adrodd amdano i'r perwyl hwn.

Adroddiad ynghylch gofynion eraill

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad mae'r wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac mae'r adroddiad blynyddol wedi ei baratoi yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

Materion y byddaf yn adrodd arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni gwybodaeth a dealltwriaeth y Gronfa Bensiwn Gwynedd a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau perthnasol yn yr adroddiad blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad ichi arnynt, os, yn fy marn i:

- nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi eu cadw, neu ni dderbyniwyd ffurflenni cyfrifyddu digonol ar gyfer fy archwiliad oddi wrth y canghennau nad yw fy nhîm wedi ymweld â nhw;
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Cyfrifoldebau

Cyfrifoldebau'r swyddog ariannol cyfrifol mewn cysylltiad â'r datganiadau ariannol

Fel yr esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau ar gyfer y datganiadau ariannol, mae'r swyddog ariannol cyfrifol yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol, sy'n rhoi darlun gwir a theg, ac am ba bynnag reolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog ariannol cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, y swyddog ariannol cyfrifol sy'n gyfrifol am asesu gallu'r Gronfa Bensiwn Gwynedd i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n briodol, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni thbyr bod hynny'n amhriodol.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn i. Sicrwydd rhesymol yw lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) yn canfod camddatganiad perthnasol bob amser pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau godi trwy dwyll neu wall a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yw achosion o beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rwy'n cynllunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau a amlinellir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn cysylltiad ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol y Cyngor a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennau ategol sy'n ymwneud â pholisïau a gweithdrefnau y Gronfa Bensiwn Gwynedd mewn cysylltiad â:
 - nodi, gwerthuso a chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau ac a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o beidio â chydymffurfio;

- canfod ac ymateb i risgiau o dwyll ac a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a'r
- rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau.
- ystyried, gan weithredu fel tîm archwilio, sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion twyll posibl. Yn rhan o'r drafodaeth hon, nodais y posibilrwydd o dwyll mewn rheolwyr yn gwrthwneud rheolaethau; ac
- cael dealltwriaeth o fframwaith awdurdod y Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoliadol eraill y mae y Gronfa Bensiwn Gwynedd yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau y Gronfa Bensiwn Gwynedd.

Yn ogystal â'r uchod, roedd fy ngweithdrefnau ar gyfer ymateb i risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau y datganiad ariannol a phrofi dogfennau ategol er mwyn asesu cydymffurfedd â'r cyfreithiau a'r rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr a'r Pwyllgor Pensiynau;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r awdurdod gweinyddu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrth-wneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion mewn cyfnodolion ac addasiadau eraill; asesu a yw'r barnau wrth wneud amcangyfrifon cyfrifyddu yn arwydd o duedd bosibl; a gwerthuso rhesymeg busnes unrhyw drafodiadau arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i fusnes arferol.

Rwyf hefyd wedi cyfleu cyfreithiau a rheoliadau perthnasol a nodwyd a risgiau o dwyll posibl i bob tîm archwilio, gan barhau i fod yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu beidio â chydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Mae'r anhawster cynhenid i ganfod afreoleidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau y Gronfa Bensiwn Gwynedd, a natur, amseru a graddau'r gweithdrefnau archwilio a gyflawnir yn effeithio ar y graddau y gall fy ngweithdrefnau ganfod afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd o ran archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

Tystysgrif cwblhau archwiliad

Tystiaf fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon y Gronfa Bensiwn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ



Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.